

|           |                                        |
|-----------|----------------------------------------|
| CYFARFOD: | BWRDD PENSIWN                          |
| DYDDIAD:  | 12 HYDREF 2026                         |
| TEITL:    | ADRODDIAD 'THE GOOD ECONOMY'           |
| PWRPAS:   | Adolygu a nodi'r adroddiad             |
| AWDUR:    | DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ochr yn ochr â'r 7 cronfa arall yng Nghymru wedi comisiynu adroddiad gan '*The Good Economy*' er mwyn arddangos y gwaith a gyflawnwyd gan y cronfeydd pensiwn ar gyfer buddsoddiadau lleol yng Nghymru.


Mae'r adroddiad yn crynhoi maint y buddsoddiad lleol gan PPC a'i effaith bosibl, gan ganolbwyntio ar fuddsoddiadau yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddadansoddiad portffolio o fuddsoddiadau yn y farchnad breifat sydd ag amlygiad i'r DU.

Mae'r adroddiad yn Atodiad 1.

## 2. BUDDSODDI YNG NGHYMURU

Mae PPC a'r wyth cronfa sy'n aelodau wedi buddsoddi £139 miliwn yng Nghymru mewn isadeiledd ynni glân, cyllid busnesau bach a chanolig, tai ac eiddo. Mae dwy ran o dair yn llifo i ynni glân (solar, gwynt ar y tir, a storio ynni), gan ddatblygu capasiti cynhyrchu newydd. Mae'r traean sy'n weddill yn cwrmpasu cyllid BBaCh sy'n cefnogi busnesau lleol, datblygiadau tai sy'n mynd i'r afael â fforddiadwyedd ac angen demograffig, a isadeiledd gan gynnwys cyfleusterau iechyd ac addysg.


Mae hanner y portffolio yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau datblygu, er enghraifft prosiectau ynni newydd, yn hytrach na chaffael asedau presennol. Mae chwarter arall o fuddsoddiad yn uwchraddio ac yn ehangu asedau a gaffaelwyd. Mae 63% o'r buddsoddiad mewn asedau yng Nghymru mewn cronfeydd lle mae gan PPC berchnogaeth flaenllaw a dylanwadol (unig fuddsoddwr, ymrwymadau conglfaen, neu fuddsoddiadau uniongyrchol). Mae'r buddsoddiadau hyn yn cyd-fynd â Nodau Llesiant Cymru, yn enwedig cyflogaeth, trawsnewid ynni glân, tai a isadeiledd iechyd.



### 3. TROSOLWG O BORTFFOLIO GWYNEDD

Mae gan Wynedd £8.7 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn 23 o asedau ledled Cymru, gyda buddsoddiadau wedi'u gwasgaru ar draws eiddo masnachol, ynni glân, a isadeiledd. Mae eiddo masnachol yn cyfrif am 47% o'r buddsoddiadau, gan gynnwys eiddo manwerthu, diwydiannol a swyddfa gydag un ased manwerthu wedi'i leoli yng Ngwynedd. Mae ynni glân yn cynrychioli 45% o'r portffolio, gyda dau ased gwynt ar y tir yn cynhyrchu capasiti sy'n cyfateb i bweru 553,112 o gartrefi. Mae buddsoddiadau isadeiledd yn cynnwys cyfleustodau a isadeiledd cymdeithasol, gyda thri chyfleuster iechyd (un yng Ngwynedd).

Mae bron i hanner y portffolio yn cynnwys datblygiadau newydd, sef cynhyrchu gwynt newydd. Mae'r portffolio sy'n weddill yn cadw buddsoddiadau presennol. Mae 44% o'r buddsoddiad mewn asedau Cymreig mewn cronfeydd lle mae Gwynedd yn dal swyddi perchnogaeth flaenllaw a dylanwadol (unig fuddsoddwr, ymrwymïadau conglfaen, neu fuddsoddiadau uniongyrchol), gan roi dylanwad ar sut mae prosiectau'n datblygu. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cyd-fynd â Nodau Llesiant Cymru, yn enwedig trawsnewid ynni glân, darpariaeth isadeiledd, a chyflogaeth leol.



### 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd adolygu a nodi'r adroddiad.